

PWYLLGOR DIOGELU'R CYHOEDD

DYDD MAWRTH, 30 TACHWEDD 2021

Yn
bressenol: Cynghorydd Mackie(Cadeirydd)

Cynghorwyr Sattar, Derbyshire, Hudson, Lancaster, Robson
a/ac Wood

6 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Apologies were received from Councillor Goddard and Jacobsen.

7 : DATGAN BUDDIANNAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiannau.

8 : COFNODION

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 2 Tachwedd 2021 fel cofnod cywir gan y Pwyllgor.

9 : AWDURDODI SWYDDOGION A DIRPRWYAETHAU

Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad yn gofyn am gymeradwyaeth i ddiweddarau awdurdodiad a dirprwyaethau swyddogion o ganlyniad i newidiadau mewn ôl-ddynodiadau o fewn Cyngor Caerdydd a'r Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir er mwyn sicrhau bod gan swyddogion yr awdurdodiad ffurfiol priodol i weithredu ar ran y Cyngor.

Dywedwyd wrth yr Aelodau mai'r unig newid gweithdrefnol sy'n deillio o'r dirprwyaethau fyddai rhoi'r gallu i swyddogion atal cerbyd hacni a thrwydded gyrrwr llogi preifat am fethu â chynhyrchu eu tystysgrif feddygol i'r Awdurdod Trwyddedu ar gais. Ar hyn o bryd, rhaid rhoi gwybod i'r Pwyllgor am y materion hyn sy'n oedi'r hyn a ddylai fod yn fater gweinyddol arferol. Gofynnwyd i'r Aelodau nodi hefyd ei bod yn bwysig bod gwydnwch yn parhau i fod ar waith i Swyddogion barhau i arfer pwerau dirprwyedig, nid yn unig i gynorthwyo gyda'r gwaith o ddydd i ddydd o fewn y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir ond i sicrhau bod camau'n cael eu cymryd lle mae diogelwch y cyhoedd mewn perygl.

Cynigiwyd dirprwyo'r cyfrifoldeb dros awdurdodi swyddogion i weinyddu gofynion y swyddogaethau a nodir yn Atodlen 1 i'r adroddiad, i'r swyddogion canlynol:

- Cyfarwyddwr Cynorthwyol - Strydlun
- Pennaeth y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir
- Rheolwr Gweithredol – Gwasanaethau Cymdogaeth

Lle y bo'n briodol, byddai unrhyw swyddogion awdurdodedig yn cael eu cymeradwyo i:

1. Cyflwyno Hysbysiadau a Gorchmynion;
2. Dyfarnu a gwrthod caniatâd;

3. Gweithredu'r darpariaethau perthnasol mewn perthynas â throeddau neu ofynion;
4. Ystyried ceisiadau a dyfarnu trwyddedau;
5. Cymeradwyo neu wrthod ceisiadau;
6. Dirymu gyrrwyr cerbydau hacni/llogi preifat ar unwaith er budd diogelwch y cyhoedd;
7. Atal neu ddirymu cerbydau hacni, cerbyd llogi preifat a thrwyddedau cerbyd hacni/gyrrwr llogi preifat am fethu â chydymffurfio ag unrhyw bolisi neu safonau cymeradwy;
8. Trefnu i waith gael ei weithredu yn unol ag unrhyw un o'r rheolau, y rheoliadau a/neu'r Gorchmynion a wneir o dan y Ddeddf honno (neu unrhyw amnewid neu ail-ddeddfiad ohonynt) a nodir yn Atodlen 1.

Croesawodd y Cadeirydd Lee Ward o Unite i'r cyfarfod. Gwahoddwyd Mr Ward i gyflwyno sylwadau ar yr adroddiad. Dywedodd Mr Ward fod y fasnach yn croesawu camau gweithredu sy'n sicrhau diogelwch y cyhoedd. Fodd bynnag, mynegwyd pryderon y gallai'r dirprwyaethau roi'r gorau i gydbwysedd pwerau oddi wrth aelodau etholedig a thuag at swyddogion. Gofynnodd Mr Ward am eglurhad ynghylch rhai o'r pwyntiau a nodir ym mharagraff 2.3 o'r adroddiad. Gofynnwyd i'r Aelodau ystyried y sylwadau hynny.

Dechreuodd y Cadeirydd y drafodaeth ar yr adroddiad hwn. Gofynnodd yr Aelodau am eglurhad ar y gwahaniaethau rhwng y dirprwyaethau sydd ar waith ar hyn o bryd a'r rhai sydd i'w cymeradwyo. Dywedodd y Swyddogion Trwyddedu nad yw'r dirprwyaethau wedi newid, ar wahân i bwynt 7 sydd wedi'i ddiwygio i gynnwys cyfeiriad at drwyddedau gyrrwr cerbyd hacni/llogi preifat gan y byddai hyn yn caniatáu i swyddogion atal trwydded gyrrwyr hyd nes y darparwyd tystysgrif feddygol foddhaol. Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad pellach ar y gofyniad hwn. Teimlai'r Aelodau y dylid ystyried cynnwys pwynt ychwanegol a oedd yn mynd i'r afael yn benodol â mater y dystysgrif feddygol.

Roedd Aelod o'r farn, er bod y pryderon a nodwyd gan y cynrychiolydd masnach yn ddilys, nad oedd llawer o ran trosglwyddo pwerau ychwanegol i swyddogion.

Cododd Aelod bryderon ynghylch geiriad 6.2 yn yr adroddiad.

'6.2 Dirprwyo awdurdod i'r Cyfarwyddwr Cynorthwyol, Strydlun a Phennaeth y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir i benodi ac awdurdodi staff â chymwysterau priodol i weithredu ar ran y Cyngor o dan bob un o'r swyddogaethau a restrir yn Atodlen 1 ac unrhyw ddeddfiadau perthnasol yn y dyfodol y penderfynir eu bod yn gyfrifoldeb i'r Pwyllgor Diogelu'r Cyhoedd.'

Roedd yr Aelod yn arbennig o bryderus ynghylch y cyfeiriad at 'unrhyw ddeddfiadau perthnasol yn y dyfodol y penderfynwyd eu bod yn gyfrifoldeb i'r Pwyllgor Diogelu'r Cyhoedd' ym mharagraff 6.2. Dywedodd y Swyddog Trwyddedu mai'r bwriad oedd galluogi swyddogion i ymateb mewn sefyllfaoedd argyfyngus fel yr ymateb diweddar i'r pandemig Covid. Derbyniodd yr Aelodau'r pwynt ac roedd o'r farn y dylid cynnwys cyfeiriad at fuddiannau diogelwch y cyhoedd.

Roedd yr Aelodau o'r farn, o ran dirymu trwydded ar ôl cyflawni trosedd ddifrifol, ei bod yn briodol i swyddogion weithredu ar unwaith ac nid mewn ymgynghoriad â Chadeirydd y Pwyllgor Diogelu'r Cyhoedd, yn ôl cais y fasnach.

PENDERFYNWYD bod y Pwyllgor yn:

1. Awdurdodi'r Cyfarwyddwr Cynorthwyol - Strydlun, Pennaeth y Rheoliadau a Rennir a'r Rheolwr Gweithredol – Gwasanaethau Cymdogaeth i weithredu fel swyddogion awdurdodedig ac ymgymryd â'r rolau a nodir yn 2.3 uchod, yn amodol ar y diwygiadau canlynol:

2.3 Pwynt 7 – Atal neu ddirymu trwyddedau cerbydau hacni / cerbydau llogi preifat am fethu â chydymffurfio ag unrhyw bolisi neu safonau cymeradwy.

2.3 Pwynt 8 - Atal trwyddedau gywyr cerbydau hacni / llogi preifat os bydd angen meddygol boddhaol ond heb ei gynhyrchu.'

2. Dirprwyo awdurdod i'r Cyfarwyddwr Cynorthwyol, Strydlun a Phennaeth y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir i benodi ac awdurdodi staff â chymwysterau priodol i weithredu ar ran y Cyngor o dan bob un o'r swyddogaethau a restrir yn Atodlen 1 ac unrhyw ddeddfiadau perthnasol yn y dyfodol y penderfynir eu bod yn gyfrifoldeb i'r Pwyllgor Diogelu'r Cyhoedd er budd diogelwch y cyhoedd.

10 : RHEOLI MASNACHU STRYD YN YR EGLWYS NEWYDD

Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad a gofynnwyd i'r Aelodau ystyried dynodi strydoedd o amgylch cyffordd Tynewydd a Heol y Coleg fel strydoedd gwaharddedig at ddibenion masnachu ar y stryd.

Dywedwyd wrth yr Aelodau fod yr Adran Drwyddedu wedi derbyn ceisiadau gan drigolion lleol a chan gydweithwyr yn Adran Dai'r Cyngor i ddynodi Tynewydd a Heol y Coleg yn strydoedd gwaharddedig. Ar hyn o bryd mae'r safle'n cael ei ddefnyddio gan faniau arlwyio symudol sy'n achosi niwsans i breswylwyr ac sy'n achosi pryderon diogelwch y cyhoedd. Roedd nodyn yn nodi pryderon yr Adran Dai wedi'i atodi i'r adroddiad yn Atodiad A.

Gwahoddodd y Cadeirydd sylwadau gan Antonia Murphy, Swyddog Adfywio, Tai a Chymunedau a Gareth Jones, Arweinydd Adran, Gwasanaethau Cymdogaeth. Rhoddodd y swyddogion grynodedig o'r materion a'r pryderon a arweiniodd at y cais i wahardd masnachu ar y stryd ar y safle. Roedd y pryderon a fynegwyd yn ymwneud â niwsans sŵn, difrod i fannau agored, defnyddio cebl pŵer sy'n rhedeg ar draws llwybr troed cyhoeddus o fflat gyfagos a phroblemau tagfeydd a pharcio ar gyffordd brysur a ddefnyddir gan ddisgyblion sy'n mynychu ysgol gyfagos.

PENDERFYNWYD - Bod:

1. Y Pwyllgor yn nodi ei fwriad i ddynodi'r canlynol fel strydoedd gwaharddedig at ddibenion masnachu ar y stryd:

Heol y Coleg, Yr Eglwys Newydd
Clos y Coleg, Yr Eglwys Newydd
Tynewydd, Yr Eglwys Newydd
Tynant, Yr Eglwys Newydd

2. Bod y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol yn cael ei awdurdodi i gyhoeddi hysbysiad cyfreithiol o fwriad y Pwyllgor ac adrodd i'r Pwyllgor maes o law fel y gall ystyried pasio'r penderfyniad angenrheidiol.

11 : EITEMAU BRYD (OS OES RHAI)

Ni nodwyd unrhyw eitemau brys.

Daeth y cyfarfod i ben am 11.50 am